ATODLEN 2

Monitro TSE

# RHAN 2

## Cynnwys Dull Gofynnol o Weithredu (DGW)

### Mesurau eraill yn dilyn samplu

**14.** Rhaid i'r DGW ddisgrifio'r systemau sydd wedi eu sefydlu i sicrhau—

(a) y pecynnir samplau o goesyn yr ymennydd yn unol â chyfarwyddiadau pecynnu P650 o Gytundeb Ewrop ynglŷn â Chludiant Rhyngwladol Nwyddau Peryglus ar y Ffyrdd (y fersiwn sy'n gymwys o 1 Ionawr 2005)(**1**);

(b) y derbynnir canlyniadau'r profion naill ai drwy ffacs neu drwy ddulliau electronig eraill; ac

(c) bod popeth y mae'n ofynnol ei waredu yn unol â phwynt 6(4) neu 6(5) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned neu o dan baragraff 6(2), 6(3) neu 6(4) o'r Atodlen hon yn cael ei adnabod a'i waredu yn unol â hynny.

(**1**) ISBN 92-1-139097-4.